# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 02.10.08

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd); Louise Hughes a Gareth Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol); Phillip T. Jones (Swyddog Gorfodaeth); Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor)

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r heddlu:** Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu yr Heddlu), Raymond Williams (Swyddog Rhawd Cymunedol); P.C. Dewi Jones (Heddwas lleol)
**Yr ymgeisydd :** Mr Gwynant Hughes (Perchennog); Mr Mike Jones (RSD)
**Aelod lleol:** Y Cynghorydd Selwyn Griffiths

**Gwrthwynebwyr:** Mr G Jardine; Mr D. Jones (Cymdogion)

## 1. CAIS AM WYRO TRWYDDED EIDDO TAFARN PENCEI, PORTHMADOG

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodaeth adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar y cais i wyro Trwydded Eiddo Tafarn Pencei, Porthmadog i ddileu'r amod sy'n gwahardd mynd â diodydd tu allan i'r eiddo.

Cyfeiriwyd at lythyrau a dderbyniwyd gan drigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais, a nododd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol na ddylid ystyried llythyr oddiwrth Dr Rowlands oherwydd mai tŷ haf sydd ganddi. Derbyniwyd llythyr gan yr heddlu yn gwrthwynebu'r cais oherwydd y posibilrwydd o danseilio'r amcan o rwystro niwsans cyhoeddus, e-bost gan yr Aelod Lleol yn gwrthwynebu oherwydd methiant i gadarnhau ffin libart y dafarn, a llythyr gan y Gwasanaeth Tân yn cyflwyno sylwadau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

1. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
2. Gwahoddwyd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.
4. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd.
5. Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
6. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r Ymgynghorai
7. Rhoddwyd cyfle i ddeilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd ymateb
8. Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd.
9. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd grynhoi eu hachos.

Atgoffwyd pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
2. Diogelwch y Cyhoedd
3. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
4. Amddiffyn plant rhag niwed.

Wrth ymhelaethu ar ei gais mynegodd yr Ymgeisydd iddo gael trafodaethau gyda'r Heddlu a dod i gytundeb i ddiwygio oriau'r cais i ganiatau gwerthu alcohol ar gyfer ei yfed tu allan i'r adeilad o 10.00 y bore hyd nes 7.30 yr hwyr yn hytrach nag oriau arferol y dafarn fel a nodir ar y cais. Y rheswm pennaf dros y cais yw i ganiatau teuluoedd i eistedd tu allan gyda diodydd ar ddiwrnodau braf, a defnyddio meinciau sydd eisoes tu allan i'r dafarn; nid oes bwriad i osod byrddau ar gyfer cwsmeriaid. Nododd bod 30 o dai yn y sgwâr a dim ond tri gwrthwynebiad a ddaeth i law, ac ni dderbyniwyd yr un cwyn personol yn y gorffennol. Cyfeiriodd at y mater o ddiffinio ffin allanol y dafarn, a'i fod mewn trafodaeth gyda adain Priffyrdd y Cyngor ers peth amser i geisio datrys y mater.

Adroddodd yr Aelod lleol ei fod yn gwrthwynebu'r oriau sydd ar y cais oherwydd y pryder o ychwanegu at niwsans cyhoeddus oherwydd y sŵn. Cyfeiriodd hefyd at y diffyg gwybodaeth ynghylch y ffin rhwng yr eiddo a'r hyn sydd dan reolaeth Cyngor Gwynedd, a'r ffaith bod ardal Porthmadog yn gweithredu'r cynllun Dyna Ddigon, lle ni chaniateir yfed ar y stryd.

Wrth gefnogi cynnwys eu llythyr cyflwynodd swyddogion yr Heddlu y sylwadau canlynol:

- Mae swyddogion yr Heddlu wedi cytuno â'r oriau 10.00 y bore hyd nes 7.30 yr hwyr ar gyfer caniatau mynd â diodydd alcohol tu allan i'r dafarn
- Mae problemau niwsans cyhoeddus wedi lleihau ers sefydlu cynllun Dyna Ddigon
- Pan fu trafferthion o gwmpas y Pencei, yn hwyr y nos yr oedd hynny'n digwydd
- Os caniateir y gwyriad, bydd yr heddlu yn dymuno gweld gwell rheolaeth pan fydd gemau ymlaen ar deledu lloeren
- Ceir cydweithrediad da gyda'r heddweision cymunedol

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Mr Jardine, perchennog un o'r tai cyfagos, mai ei brif gartref yw Cornhill Cottage, er ei fod yn gwario llawer o'i amser yn lleoliad ei fusnes yn Swydd Caer. Mae'n gwrthwynebu'r cais a chyflwynodd y sylwadau canlynol:

- Bydd yn ymddeol yn y dyfodol agos i fyw'n barhaol yn ei gartref yn Pencei
- Mae'r sŵn gan gwsmeriaid tafarn Pencei wrth adael yn hwyr y nos yn tarfu ar ei heddwch yn aml
- Mae'n gwrthwynebu'r cais ar sail y gallai caniatau'r gwyriad ychwanegu at niwsans cyhoeddus

Ychwanegod Mr Dewi Jones, sy'n byw yn yr un stryd â'r dafarn, y sylwadau canlynol:

- Ar adegau mae oddeutu hanner cant o gwsmeriaid yn yfed tu allan i'r dafarn heb reolaeth ar y swn
- Os mai eiddo'r Cyngor yw'r tir tu allan i'r dafarn, a fyddai'r cwsmeriaid yn torri'r gyfraith wrth yfed tu allan?

Adroddodd y Swyddog Gorfodaeth iddo geisio cael gwybodaeth gan yr Adran Priffyrdd ynghylch y ffin o gwmpas adeilad Tafarn Pencei, ond heb lwyddiant. Cadarnhaodd bod yr Ymgeisydd yn cadw llygad rheolaidd tu allan i'r dafarn ac yn annog unrhyw gwsmeriaid sy'n yfed i fynd yn ôl i mewn.

Wrth ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr, nododd Rheolwr y Pencei:

- Mae ef yn bersonol yn casglu unrhyw sbwriel bob nos
- Mae'r safle'n glir erbyn 1.00am

- Mae gwydrau'r Pencei yn cael eu cadw mewn biniau tu cefn i'r dafarn a'u gwaredu'n wythnosol
- Nid oes problem gyda sŵn gormodol yn ystod y dydd
- Mae unrhyw berson sy'n ymddwyn yn afreolus neu'n rhegi yn cael ei wahardd yn syth
- Ni dderbyniwyd yr un cwyn yn bersonol gan y trigolion cyfagos

O ystyried tystiolaeth yr Heddlu a'r trigolion lleol ac er mwyn glynu at yr egwyddorion canlynol:

a) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;
b) Diogelwch y cyhoedd;
c) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus;
d) Amddiffyn Plant rhag Niwed

trafodwyd y cais yn helaeth yng ngolau'r holl sylwadau a dderbyniwyd a mynegwyd y sylwadau canlynol:

- Nifer fechan iawn o dafarndai sydd bellach â'r amod i beidio â chaniatau cario diodydd alcohol tu allan
- Mae'r mater o ffiniau'r dafarn i'w drafod rhwng y Perchennog â'r Adran Priffyrdd
- Mae hawl gan unrhyw berson yfed mewn mannau tu allan, onibai bod yr heddlu yn eu hatal ar y pryd
- Mae cyfrifoldeb ar y tafarnwr i annog cwsmeriaid i adael yr eiddo yn ddistaw a heb achosi niwsans cyhoeddus
- Ni ellir gosod amod ar y drwydded i ddefnyddio llestri plastig tu allan i'r dafarn, ond gellir gofyn am gytundeb y tafarnwr i wneud hyn

Cyflwynwyd yr awgrym uchod i'r perchennog, a chytunodd ar unwaith i weini unrhyw ddiodydd fydd yn cael eu cario allan o'r eiddo mewn llestri plastig.

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Tafar Pencei, Porthmadog fel a ganlyn:**

**a) caniatau gwerthu diod alcohol i'w yfed tu allan i'r eiddo rhwng yr oriau 10.00 y bore a 7.00 yr hwyr, gan ganiatau hanner awr ychwanegol tan 7.30 yr hwyr i glirio pawb a phopeth o'r tu allan**
**b) bod y ffin rhwng yr eiddo ac eiddo'r Cyngor i gael ei diffinio'n glir**
**c) bod yr eiddo yn cydymffurfio ag amodau'r Gwasanaeth Tân**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol yr anfonir llythyr o fewn saith diwrnod yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor a hysbyswyd pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr. Nododd hefyd yr hawl i wneud cais am adolygu'r drwydded pe bai gan unrhyw un dystiolaeth na chedwir at yr amodau uchod. Addawodd y Rheolwr i wneud ymholiadau ynghylch y mater o ddiffinio'r ffin rhwng eiddo Pencei ac eiddo'r Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:20pm